C Ff G
BCW
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

# DATGANIAD I'R WASG

Cyhoeddwyd gan
Y Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn: 029 2039 5031
Ffacs 029 2039 5250

Dyddiad 10 Tachwedd 2004

**ARGYMHELLION TERFYNOL AR GYFER YR ETHOLAETHAU SENEDDOL YN SIR GADWEDIG DE MORGANNWG**

**Mae'r Comisiwn yn cynnig peidio gwneud unrhyw newid i'w argymhellion dros dro ar gyfer y pum etholaeth yn sir gadwedig De Morgannwg:**

1. Cyhoeddwyd argymhellion dros dro mewn perthynas â De Morgannwg, ar 5 Ionawr 2004. Arweiniodd gwrthwynebiadau i'r argymhellion dros dro at ymchwiliad cyhoeddus a gynhaliwyd ym Mhenarth ar 24 Mehefin 2004. Argymhellodd y Comisiynydd Cynorthwyol a gynhaliodd yr ymchwiliad y dylid gwneud newid i argymhellion dros dro y Comisiwn. Ar ôl ystyried ei adroddiad a'i argymhellion, a'r dystiolaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Comisiwn i beidio â derbyn ei newid argymelledig, ac mae'r Comisiwn wedi cadarnhau ei argymhellion dros dro fel argymhellion terfynol yn unol â hynny.

**Adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol**

2. Roedd y Comisiynydd Cynorthwyol yn gefnogol i benderfyniad y Comisiwn i ddyrannu pum etholaeth i'r sir gadwedig. Codwyd nifer o faterion mewn cynrychiolaethau ac fe'u trafodwyd yn yr ymchwiliad. Y prif faterion a godwyd oedd:

(a) trosglwyddo o etholaeth Pontypridd i etholaeth Gorllewin Caerdydd rhanbarth etholiadol Pentyrch a rhan o ranbarth etholiadol Creigiau/ Sain Ffagan;
(b) trosglwyddo o etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr i etholaeth Bro Morgannwg rhanbarth etholiadol Saint-y-brid a rhan o ranbarth etholiadol Llandŵ/Ewenni; a
(c) throsglwyddo o etholaeth Bro Morgannwg i etholaeth De Caerdydd a Phenarth rhanbarth etholiadol Sili.

**Rhanbarth etholiadol Pentyrch a rhan o ranbarth etholiadol Creigiau/ Sain Ffagan**

3. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol na dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r cynigion gan drigolion lleol, ac nad oedd wedi derbyn unrhyw dystiolaeth y byddai'r trosglwyddo yn achosi anhawster neu ei fod yn amhriodol ynddo'i hun. Roedd o'r farn bod cynigion y Comisiwn yn osgoi rhannu rhanbarth etholiadol Creigiau/Sain Ffagan rhwng etholaethau a bod yr ardal dan sylw i weld yn cydweddu'n ddigonol â Gorllewin Caerdydd ar lawr gwlad. Argymhellodd bod cynigion dros dro y Comisiwn yn cael eu derbyn ar gyfer yr ardal hon.

**Rhanbarth etholiadol Saint-y-brid a rhan o ranbarth etholiadol Llandŵ/Ewenni**

4. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol ei fod wedi ystyried y dystiolaeth a wnaed mewn gwrthwynebiad i gynigion y Comisiwn ar gyfer yr ardal hon, ac nad oedd, ar ôl gweld y dystiolaeth, o'r farn y byddai llawer o gysylltiadau lleol yn cael eu torri. Roedd o'r farn bod cynigion y Comisiwn yn osgoi rhannu rhanbarth etholiadol Llandŵ/Ewenni rhwng etholaethau, ac yn rhoi mwyafrif ei etholwyr yn yr un etholaeth ag yr oeddent o'r blaen, sef etholaeth Bro Morgannwg. Roedd o'r farn fod yr ardaloedd dan sylw yn debyg o ran cymeriad i Fro Morgannwg fel cyfanrwydd, ac roedd i weld yn cydweddu'n ddigonol ar lawr gwlad. Argymhellodd bod cynigion dros dro y Comisiwn yn cael eu derbyn ar gyfer yr ardal hon.

**Rhanbarth etholiadol Sili**

5. Ystyriwyd sefyllfa Sili yn erbyn cefndir y trosglwyddo arfaethedig i Fro Morgannwg rhanbarth etholiadol Saint-y-brid a rhan o ranbarth etholiadol Llandŵ/Ewenni, cynigion y disgrifiodd y Comisiynydd Cynorthwyol fel rhai diwrthdro.

6. Nododd y Comisiynydd Cynorthwyol mai'r mater a ddylid trosglwyddo Sili i Dde Caerdydd a Phenarth a ddenodd y cynrychiolaethau mwyaf o bell ffordd. Nododd y byddai'r trosglwyddo arfaethedig yn sicrhau llawer mwy o gydraddoldeb etholiadol, ac ar ôl dadansoddi'r rhifyddeg, canfu fod y ddadl o blaid mwy o gydraddoldeb etholiadol yn un gref.

7. Derbyniodd y Comisiynydd Cynorthwyol gynrychiolaethau yn erbyn trosglwyddo Sili i Dde Caerdydd a Phenarth, i'r perwyl na fyddai gan Sili ar un pen yr etholaeth ddim yn gyffredin â rhanbarthau etholiadol ar y pen arall, ond dywedodd nad oedd trigolion Sili yn anesmwyth o ran eu cysylltiad â Phenarth.

8. Nododd y Comisiynydd Cynorthwyol fodd bynnag, er bod Sili ei hun yn bentref gwledig, arfordirol, roedd pen gorllewinol y pentref fwy neu lai yn rhedeg i mewn i ardal adeiledig Y Barri (ym Mro Morgannwg), a dywedwyd wrtho bod trigolion Sili yn ymuniaethu â Bro Morgannwg a'r Barri fel sedd yr awdurdod lleol ac ar gyfer gwasanaethau lleol. Derbyniodd y Comisiynydd Cynorthwyol fod hyn yn dystiolaeth o gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri pe bai Sili yn cael ei drosglwyddo i Dde Caerdydd a Phenarth. Ychydig o dystiolaeth a gafodd o gysylltiadau cymunedol o blaid trosglwyddo. Roedd y Comisiynydd Cynorthwyol yn fodlon fod gwrthwynebiad sylweddol ar ran trigolion Sili i gael eu cynnwys yn etholaeth seneddol De Caerdydd a Phenarth, er bod rhywfaint o'r gwrthwynebiad hwn yn seiliedig ar gamddealltwriaeth o'r canlyniadau ymarferol.

9. Derbyniodd y Comisiynydd Cynorthwyol dystiolaeth hefyd am y patrymau twf rhagweledig yn y ddwy etholaeth a awgrymodd iddo y bu mwy o dwf, ac y byddai mwy o dwf, ym mhoblogaeth De Caerdydd a Phenarth nag a fyddai ym Mro Morgannwg.

10. Ystyriodd y Comisiynydd Cynorthwyol, os oedd y cynigion eraill (Saint-y-brid, Llandŵ/Ewenni) yn cael eu cymryd yn ganiataol, 71,518 fyddai nifer etholwyr Bro Morgannwg oni bai bod Sili yn cael ei drosglwyddo i Dde Caerdydd a Phenarth. Byddai hyn

bron â bod yn 10% uwchlaw’r cyfartaledd sirol, a oedd yn wir ar y terfyn, neu gerllaw’r terfyn.

11. Wrth grynhoi, canfu’r Comisiynydd Cynorthwyol fod cydbwysedd cyfartal rhwng y dadleuon o blaid ac yn erbyn trosglwyddo Sili i Dde Caerdydd a Phenarth. Canfu fod rheswm da i bryderu ynghylch maint absoliwt a chymharol etholaeth Bro Morgannwg o gadw Sili. Ni chafodd ei berswadio y byddai trosglwyddo i Dde Caerdydd a Phenarth yn niweidio cysylltiadau lleol Sili yn fawr. Ond byddai’n torri hen gysylltiadau lleol. Daeth i’r casgliad (1) lle’r oedd hen gysylltiadau lleol a fyddai’n cael eu torri gan y trosglwyddo, (2) lle’r oedd yn ymddangos bod maint etholaeth Bro Morgannwg yn aros yn sefydlog a (3) lle’r oedd yn ymddangos bod twf grymus yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth, ni fyddai 71,518 o etholwyr ar gyfer Bro Morgannwg mor ormodol bod gofyn trosglwyddo. Ni wnaeth argymell felly trosglwyddo Sili i Dde Caerdydd a Phenarth, a chadarnhaodd ei gasgliadau mewn perthynas â Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni.

12. Mae’r Comisiwn wedi ystyried rhesymeg y Comisiynydd Cynorthwyol yn ofalus yn ôl y crynodeb uchod, a noda ei fod wedi cael y dadleuon o blaid trosglwyddo Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni i Fro Morgannwg yn ddiwrthdro, er iddo ystyried bod cydbwysedd cyfartal rhwng y dadleuon o blaid ac yn erbyn trosglwyddo Sili i Dde Caerdydd a Phenarth. Cytuna’r Comisiwn gyda’r Comisiynydd Cynorthwyol fod y ddadl o blaid sicrhau paredd etholiadol mwy yn sgil trosglwyddo Sili yn un gref. Mae’r Comisiwn yn rhoi cryn bwys hefyd ar weithredu Rheol 5, ac yn absenoldeb ffactor gwrthbwysol ddigon cryf, neu set o ffactorau, mae’r Comisiwn o’r farn mai Rheol 5 ddylai fod drechaf fel arfer. Mae’r Comisiwn wedi ystyried yn ofalus iawn yr holl dystiolaeth a ystyriwyd gan y Comisiynydd Cynorthwyol, gan gynnwys y dystiolaeth ynghylch cysylltiadau lleol a gwahaniaethau yng nghyfradd twf yr etholwyr, ac mae’n gadarn o’r farn nad yw hyn yn ddigon cryf i wrthbwyso gweithredu Rheol 5. Mae’r Comisiwn felly yn cadarnhau ei gynnig y dylai Sili gael ei drosglwyddo i etholaeth seneddol De Caerdydd a Phenarth.

**Argymhellion Terfynol**

13. Ar ôl ystyried adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol, y transgript o’r ymchwiliad a’r cynrychiolaethau ysgrifenedig, penderfynodd y Comisiwn:

(a) dderbyn argymhellion y Comisiynydd Cynorthwyol mewn perthynas ag (1) rhanbarth etholiadol Pentyrch a rhan o ranbarth etholiadol Creigiau/Sain Ffagan, a (2) rhanbarth etholiadol Saint-y-brid a rhan o ranbarth etholiadol Llandŵ/Ewenni.

(b) peidio â derbyn argymhellion y Comisiynydd Cynorthwyol yn ymwneud â rhanbarth etholiadol Sili, ond i gadarnhau’r argymhellion dros dro, sef cynnwys rhanbarth etholiadol Sili o fewn etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn hytrach nag etholaeth Bro Morgannwg.

14. Bydd argymhellion terfynol y Comisiwn ar gyfer sir gadwedig De Morgannwg, a fydd yn cael eu cynnwys yn ei adroddiad i’w gyflwyno i’r Ysgrifennydd Gwladol ar ddiwedd yr adolygiad cyffredinol, ac a ddangosir ar y map atodedig, ar gyfer pum etholaeth fel a ganlyn (dangos nifer etholwyr 2003 mewn cromfachau).

**CARDIFF CENTRAL BOROUGH CONSTITUENCY (60,864),** Rhanbarthau etholiadol **Sir Caerdydd**: Adamsdown, Cathays, Cyncoed, Pentwyn, Penylan, Plasnewydd.

**CARDIFF NORTH BOROUGH CONSTITUENCY (63,615),** Rhanbarthau etholiadol **Sir Caerdydd**: Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Llysfaen, Ystum Llandaf, Llanishen, Pontprennau/Yr Hen Laneirwg, Rhiwbeina, Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais.

**CARDIFF SOUTH AND PENARTH BOROUGH CONSTITUENCY (67,855),** Rhanbarthau etholiadol **Sir Caerdydd**: Butetown, Grangetown, Llanrhymni, Tredelerch, Y Sblot, Trowbridge. Rhanbarthau etholiadaol **Sir Bro Morgannwg**: Cornerswell, Llandough, Plymouth, St. Augustine's, Stanwell, Sili.

**CARDIFF WEST BOROUGH CONSTITUENCY (64,587),** Rhanbarthau etholiadol **Sir Caerdydd**: Caerau, Canton, Creigiau/Sain Ffagan, Trelái, Y Tyllgoed, Llandaf, Pentyrch, Radyr, Riverside.

**VALE OF GLAMORGAN COUNTY CONSTITUENCY (68,229),** Rhanbarthau etholiadol **Sir Bro Morgannwg**: Baruc, Buttrills, Cadoc, Castleland, Court, Y Bont-faen, Dinas Powys, Dyfan, Gibbonsdown, Illtyd, Llandŵ/Ewenni, Llanilltud Fawr, Llanbedr-y-fro, Y Rhws, Sain Tathan, Saint-y-brid, Gwenfô.

**Cynrychiolaethau**

15. Yn unol ag adran 5 Deddf 1986 a'r gweithdrefnau a nodir yn llyfryn arweiniad y Comisiwn a gyhoeddwyd yn 2003, nid oes hawl gan y Comisiwn ystyried unrhyw gynrychiolaethau pellach mewn perthynas â'r argymhellion hyn. Pan fydd y Comisiwn wedi cwblhau'i adolygiad o Gymru gyfan, bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Gweithredu'r argymhellion**

16. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno'i adroddiad ar yr adolygiad cyffredinol o Gymru gyfan i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ôl 16 Rhagfyr 2002 a chyn 17 Rhagfyr 2006. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddyletswydd statudol i roi adroddiad y Comisiwn gerbron y Senedd, ynghyd â drafft o'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sy'n rhoi grym i argymhellion y Comisiwn gyda newidiadau neu heb newidiadau. Os cynigir newidiadau, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd roi datganiad o resymau am y newidiadau. Cyflwynir y drafft o'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor i ddau Dŷ'r Senedd i'w cymeradwyo ac, wedi iddo gael ei wneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, ni ellir codi amheuaeth yn ei gylch mewn unrhyw achos cyfreithiol. Daw'r etholaethau newydd i rym adeg yr etholiad cyffredinol nesaf ar ôl gwneud y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

**Map amlinellol**

17. Dangosir amlinelliad o'r rhanbarthau etholiadol ar y map sy'n rhan o'r ddogfen hon (sylwer ar y rhybudd hawlfraint isod sy'n ymwneud â'r map). Mae'r rhanbarthau etholiadol ar y map wedi'u rhifo, ac mae rhestr o'r rhifau hyn ac enwau'r rhanbarthau etholiadol ar y ddalen gefn, ynghyd â ffigurau etholiadol 2003 y mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio arnynt yn ôl y gyfraith.

**Hawlfraint y Goron**

18. Mae'r map amlinellol sy'n rhan o'r ddogfen hon wedi'i seilio ar ddata'r Arolwg Ordnans ac mae Hawlfraint y Goron arno. Bydd atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno atgynhyrchu'r map amlinellol gysylltu'n gyntaf â'r Swyddfa Hawlfraint yn Ordnance Survey, Romsey Road, Southampton SO16 4GU (ffôn 023 8079 2929)

**Ymholiadau**

19. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r: Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Caradog, 1 – 6 Plas Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3BE.

Rhif Ffôn 029 2039 5031
Ffacs 029 2039 5250
E-bost comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk

# Argymhellion Terfynol ar gyfer De Morgannwg
# Final Recommendations for South Glamorgan

ALLWEDD / KEY

Ffiniau / Boundaries:

Rhanbarth Etholiadol / Electoral Division


Awdurdod Unedol / Unitary Authority

Etholaeth Arfaethedig / Proposed Constituency

| Sedd Seat | Enw a Theitl Name & Designation | 2003 |
|---|---|---|
| 1 | CARDIFF CENTRAL BC | 60,864 |
| 2 | CARDIFF NORTH BC | 63,615 |
| 3 | CARDIFF SOUTH AND PENARTH BC | 67,855 |
| 4 | CARDIFF WEST BC | 64,587 |
| 5 | VALE OF GLAMORGAN CC | 68,229 |

Seilir y map hwn ar fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi
(H) Hawlfraint y Goron

This map is based on the Ordnance Survey Map with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
(c) Crown Copyright



## De Morgannwg

| A. | Caerdydd | 236,503 |
|---|---|---|
| 1. | Adamsdown | 5,411 |
| 2. | Butetown | 3,948 |
| 3. | Caerau | 7,266 |
| 4. | Canton | 10,399 |
| 5. | Cathays | 12,752 |
| 6. | Creigiau/Sain Ffagan | 3,869 |
| 7. | Cyncoed | 8,793 |
| 8. | Treláí | 9,926 |
| 9. | Y Tyllgoed | 9,820 |
| 10. | Gabalfa | 6,452 |
| 11. | Grangetown | 10,299 |
| 12. | Y Mynydd Bychan | 9,168 |
| 13. | Llysfaen | 2,797 |
| 14. | Llandaf | 7,317 |
| 15. | Ystum Llandaf | 5,690 |
| 16. | Llanishen | 11,837 |
| 17. | Llanrhymni | 8,107 |
| 18. | Pentwyn | 10,647 |
| 19. | Pentyrch | 2,817 |
| 20. | Penylan | 9,639 |
| 21. | Plasnewydd | 13,622 |
| 22. | Pontprennau/Yr Hen Laneirwg | 5,967 |
| 23. | Radyr | 3,933 |
| 24. | Rhiwbeina | 9,321 |
| 25. | Riverside | 9,240 |
| 26. | Tredelerch | 6,593 |
| 27. | Y Sblot | 8,480 |
| 28. | Trowbridge | 10,010 |
| 29. | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais | 12,383 |

| B. | Bro Morgannwg | 88,647 |
|---|---|---|
| 1. | Baruc | 4,334 |
| 2. | Buttrills | 4,260 |
| 3. | Cadoc | 6,250 |
| 4. | Castleland | 2,506 |
| 5. | Cornerswell | 4,016 |
| 6. | Court | 3,148 |
| 7. | Y Bont-faen | 5,169 |
| 8. | Dinas Powys | 6,230 |
| 9. | Dyfan | 3,715 |
| 10. | Gibbonsdown | 3,621 |
| 11. | Illtyd | 6,093 |
| 12. | Llandŵ | 1,536 |
| 13. | Llandŵ/Ewenni | 2,068 |
| 14. | Llanilltud Fawr | 7,825 |
| 15. | Llanbedr-y-fro | 1,751 |
| 16. | Plymouth | 4,105 |
| 17. | Y Rhws | 4,359 |
| 18. | Sain Tathan | 2,408 |
| 19. | St. Augustine's | 4,509 |
| 20. | Saint-y-brid | 2,211 |
| 21. | Stanwell | 2,963 |
| 22. | Sili | 3,289 |
| 23. | Gwenfô | 2,281 |